Cofnodion cyfarfod Pwyllgorau Cynllunio, Cyllid a Materion Cyffredinol a gynhaliwyd Nos Lun, Gorffennaf 14eg 2014 am 6.30 o'r gloch yn Neuadd y Dref, Dinbych.

Presennol: Cynghorwyr Raymond Bartley, Margaret Bowe, Rob Parkes, Gaynor Morgan Rees, Medwyn Williams, Geraint Williams, Brian Davies, Roy Tickle, Mark Young, Shereen Lunt, Gaynor Wood a Medwyn Jones (Clerc y Dref).

Ymddiheuriadau: Cyng Colin L Hughes a Colin Hughes.

Arsylwi: Cynghorydd Sir Gwyneth Kensler a tri ar ddeg o aelodau o'r cyhoedd.

Cadeiriwyd Pwyllgorau Cyllid a Materion Cyffredinol gan y Cyng Raymond Bartley gyda'r Cyng Margaret Bowe yn cadeirio'r Pwyllgor Cynllunio.

Croesawodd y cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

57. Prosiect Cartrefi Gwag Sir Ddinbych. Croesawodd y cadeirydd Andrea Fisher, Swyddog Tai ag Adnewyddu Ardaloedd Cyngor Sir Ddinbych a gwahoddodd Ms Fisher i annerch y cyfarfod. Agorodd Ms Fisher drwy roddi manylion am ei gwaith. Roedd gan GSDd polisi i gyflenwi tai ~~g~~orddiadwy drwy ddod ac eiddo gwag yn ôl i'w ddefnyddio. Dosbarthodd Ms Fisher daflenni gwybodaeth ac arweiniodd yr aelodau drwy'r cynnwys. Ymatebodd Ms Fisher i gwestiynau a sylwadau oddi wrth yr aelodau ar (1) nifer yr eiddo gwag oedd yn Ninbych ar hyn o bryd, (2) argaeledd rhestr eiddo, (3) hyrwyddo'r cynllun, (4) fflatiau gwag uwchben siopau. Diolchodd nifer o'r aelodau i Ms Fisher am yr wybodaeth a gafwyd.
Diolchodd y cadeirydd i Ms Fisher am ei phresenoldeb a'i chyflwyniad a diolchodd iddi a'r tîm am y gwaith roeddynt yn ei wneud.

58. Datgan Diddordeb Personol: Derbyniwyd y datganiadau canlynol:

(1) Cyng Raymond Bartley – eitem 1 ar agenda cynllunio – llwybr beicio ac ati.
(2) Cyng Rob Parkes – eitem agenda C1(3) – gohebiaeth – Sioe Dinbych.
(3) Cyng Geraint Williams - holl faterion oedd yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych
(4) Cyng Shereen Lunt – eitem agenda C1(3) – gohebiaeth – Sioe Dinbych

A. <u>Pwyllgor Cynllunio:</u>

59. (1) **Ceisiadau am ganiatâd cynllunio.** Yn dilyn trafodaeth, cytunwyd i beidio â gwrthwynebu'r ceisiadau canlynol am ganiatâd cynllunio

(1) 91, Stryd y Dyffryn
(2) The Cloister Building, Howell's Preparatory School
(3) Asia, Pwll y Grawys.
(4) Cyfnewidfa Teleffon, Lôn Postws.

Ynglŷn â'r cais am ganiatâd cynllunio ar gyfer tir rhwng Eglwys Dewi Sant, Lôn Dewi Sant a Ffordd y Brwcws nodwyd derbyn 16 o eitemau o ohebiaeth (85 o dudalennu) yn gwrthwynebu'r cais. Mynychwyd y cyfarfod gan dair ar ddeg o wrthwynebwyr i arsylwi y cais arbennig yma. Roedd nifer o faterion yn berthnasol a chytunwyd i ohirio'r penderfyniad tan gyfarfod llawn o'r cyngor ar Orffennaf 28ain ac i ymweliad safle i gynghorwyr yn unig gymryd lle. Cytunwyd i'r ymweliad gymryd lle dydd Mawrth Gorffennaf 15fed am 3 o'r gloch.

Ynglŷn â'r cais cynllunio a dderbyniwyd ar gyfer Cae Gwyn, Ffordd yr Wyddgrug mynegwyd rhai pryderon ynglŷn â'r fynedfa i'r safle o Ffordd yr Wyddgrug a chytunwyd i ohirio'r cais tan gyfarfod

llawn y cyngor ar Orffennaf 28ain ac i wneud cais am sylwadau'r adran priffyrdd ar y pwynt arbennig yma.

(2) Materion Cynllunio eraill: (a) Nodwyd wyth tystysgrif yn caniatáu caniatâd cynllunio.
(b) CSDd – Nodwyd y Sesiwn Hyfforddiant Cynllunio, dydd Iau Gorffennaf 17eg 2014 – Y Cyng Margaret Bowe a Raymond Bartley yn mynychu.

B. <u>Pwyllgor Cyllid:</u>

60. Cyfrifon: 1. Cytunwyd i dalu'r cyfrifon canlynol a dderbyniwyd:

(1)	Marian Rees – gwasanaeth cyfieithu 23.6.14 (rhif siec 005415)	-	£102.00
(2)	Sodexo – cynnal a chadw gardd Dr E P (Mehefin) (rhif siec. 005416)	-	£605.88
(3)	Thomas Fattorini - bathodynnau cyn faeres / cydwedd (cofnod 23(4)(2) yn cyfeirio) (rhif siec 005417)	-	£1,063.92
(4)	Paul Liversidge – clirio llwybrau (Mehefin) (rhif siec 005418)	-	£165.00
(5)	Scottish Power – Gardd Dr E P (rhif siec 005419)	-	£91.91
(6)	Catalyst Systems – storfa data oddi ar y safle (rhif siec 005420)	-	£4.86

Cyfanswm taliadau: £2,033.57.

2. Nodwyd adroddiad ariannol cyfnod **1.4.13 – 30.6.14**

3. Nodwyd y Proffil Arian wrth Gefn **30.6.14**

3. Unrhyw faterion ariannol eraill: (1) Baneri Dinbych - cyfeiriodd clerc y dref at yr e-byst a dderbyniwyd oddi wrth y Cyng Kensler. Gadawodd y Cyng Kensler y siambr tra bu trafod y mater. Dywedwyd nad oedd unrhyw ddarpariaeth yn y gyllideb bresennol i brynu'r baneri - cyfanswm y gost - £2,010. **Penderfynwyd** (8 pleidlais i 3) **i ohirio penderfyniad tan ddyddiad ymhellach ymlaen yn y flwyddyn.** Cytunwyd ymhellach i hyn fod mis Rhagfyr / Ionawr pan fydd cyllideb y flwyddyn ariannol nesaf yn cael ei thrafod.

(2) Tlws Cadwyn y Maer - dywedodd clerc y dref fod darn o'r tlws wedi mynd ar goll a chyfeiriodd at yr amcan bris a dderbyniwyd oddi wrth Thomas Fattorini am ddarn newydd o waith llaw mewn aur 18c i gyd fynd y tri darn arall y tlws. **Penderfynwyd derbyn yr amcan bris.**

4. <u>Ffurflen Flynyddol 2013 / 2014</u>:Yn y man yma symudodd y cyfarfod i gyngor llawn o dan gadeiryddiaeth y Maer y Cyng Rob Parkes.

Cyfeiriodd clerc y dref at y drefn newydd. Derbyniwyd yn ôl y ffurflen drafft oddi wrth yr archwilydd allanol oedd yn dweud eu bwriad i roddi tystysgrif archwiliad diamod ac i dynnu sylw at ddau fater oedd ddim yn effeithio ar y farn archwiliad. Roedd clerc y dref, yn ôl y rheolau, wedi arwyddo adran 3 o'r ffurflen ac yna, yn dilyn y cyngor yn ystyried y ddau fater a godwyd gan yr archwilydd allanol, roedd cadeirydd y cyngor i arwyddo adran 3. Ar y sail yma cytunwyd fod y ddau fater a godwyd yn cael eu cyfeirio at yr is bwyllgor archwilio a phersonél i drafod ac adrodd yn ôl i'r cyngor. Cymeradwyodd y cyfarfod y ffurflen flynyddol

ac aeth y Maer ymlaen i arwyddo a dyddio adran 3. Y ffurflen flynyddol i'w gyrru'n ôl i'r Archwilydd Allanol.

Yn y man yma symudodd y cyfarfod yn ôl i fodd pwyllgor.

C. <u>Pwyllgor Materion Cyffredinol</u>:

61. Llythyron, E-byst a Hysbysiadau: (1) Penderfynwyd nodi chwe eitem o ohebiaeth a dderbyniwyd.

2. Cytunwyd ymhellach i nodi a gweithredu fel bod angen ar y canlynol:

(1) Cyfeiriwyd y cais cymorthdaliadau a dderbyniwyd oddi wrth Menter Iaith Sir Ddinbych at yr is bwyllgor cymorthdaliadau.
(2) Cyfeiriwyd Papur Gwyn Llywodraeth Cymru ar Ddiwygio Llywodraeth Leol at yr is bwyllgor archwilio dogfennau i ystyried ac ymateb.
(3) SP Energy Works ynglŷn â Phrosiect cysylltu Ffermydd Gwynt Gogledd Cymru. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i ymateb fod y cyngor tref o'r farn y dylai'r holl geblau gael eu gosod tan ddaear.**
4) Cytunwyd caniatáu cais Cymdeithas Ddinesig Dinbych i barcio di dal ar gyfer dydd Sadwrn penwythnos Drysau'n Agored - 20.9.14.

62. Cofnodion / Adroddiadau Cyfarfodydd is bwyllgorau'r cyngor. <u>Arweinlyfr Dinbych</u>. Dywedodd y Cyng Medwyn Williams fod angen i'r is bwyllgor gyfarfod cyn diwedd y mis. Roedd angen cwblhau'r gwaith golygu cyn diwedd Awst. Roedd angen lluniau. Cytunwyd i'r pwyllgor golygu gyfarfod nos Fawrth Gorffennaf 22ain am 5 o'r gloch.

63. Adroddiadau: <u>(1) Grŵp Coffau y Rhyfel Byd Cyntaf.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref. Atgoffodd clerc y dref y cyfarfod am y Gwasanaeth Arbennig yn Eglwys y Santes Fair dydd Mawrth y 15fed o Orffennaf. Gosodwyd y plac coffau. Paratowyd a rhyddhawyd datganiad i'r wasg ond ni chafodd ei gyhoeddi yn y Free Press na'r Daily Post. Diolchodd y cadeirydd i'r Rheithor y Parchedig Jonathan Smith a chlerc y dref am eu gwaith ar y prosiect.

<u>(2) Gweithgor Tân Gwyllt.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig clerc y dref.

<u>(3) Bwrdd Prosiect cyn Ysbyty Gogledd Cymru.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Cyng Medwyn Williams. Ymhelaethodd y Cyng Williams ar yr adroddiad. Cwblhawyd yr ymholiad cyhoeddus a gobeithir y bydd y canlyniadau ar gael ym mis Medi / Hydref. Cyflwynwyd Gorchymyn Pwrcasu Gorfodol ar y perchenogion.
<u>(4) Grŵp Llywio Cyswllt a'r Castell.</u> Ystyriwyd a derbyniwyd adroddiad ysgrifenedig y Cyng Medwyn Williams. Ymhelaethodd y Cyng Williams ar yr adroddiad ac ymatebodd i un neu ddau o gwestiynau.

Diolchodd y cadeirydd i'r Cyng Williams am y ddau adroddiad.

Nid oedd unrhyw adroddiadau eraill.

64. Cylch Cyfeillgarwch Trefi Caerog Gogledd Cymru - Aelodaeth Anrhydeddus. Ystyriwyd yr e-bost a dderbyniwyd oddi wrth gadeirydd y ddolen gyswllt. Gofynnodd y cadeirydd i glerc tŷ dref adael y siambr tra bu trafod y mater. **Penderfynwyd fod clerc y dref, Medwyn Jones, yn cael ei enwebu fel aelod anrhydeddus o'r Cylch.** Cytunwyd fod y Maer yn cyfleu'r penderfyniad i ysgrifennydd y cylch.

65. Cymdeithas Cynghorau Lleol Gogledd a Chanolbarth Cymru - newid arfaethedig i'r cyfansoddiad. Cyfeiriodd clerc y dref at y llythyr a dderbyniwyd oddi wrth ysgrifennydd y

gymdeithas. Roedd y cyfarfod wedi synnu nad oedd gan y gymdeithas bolisi dwyieithog ac i'r cyfansoddiad gael ei newid fel yr awgrymwyd. Dywedwyd fod yr iaith Gymraeg yn cael ei thrin yn eilradd. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) i wrthwynebu'r cynnig.

66. CCTV Dinbych. Cyfeiriodd clerc y dref at yr e-bost pellach a dderbyniwyd oddi wrth Heddlu Gogledd Cymru. Yn ystod y drafodaeth ganlynol soniwyd am berchnogaeth y camerâu a'r offer a phwy fyddai'n talu am y cynnal a chadw. **Penderfynwyd** (yn unfrydol) **i wahodd y tri pherson a enwyd yn yr e-bost i gyflwyno'r prosiect i'r cyngor.**

67. Materion o Ddiddordeb: 1. Codwyd y materion canlynol gan yr aelodau a chytunwyd gweithredu lle bo angen:

(1) Gwylanod yn achosi problemau ac yn ymosod a phobl yn y dref.
(2) Giât Gardd Goffa Dr Evan Pierce ddim yn cael ei chloi dros nos.
(3) I wahodd Grŵp Cynefin i roddi cyflwyniad ar Hwb Dinbych.
(4) Y digwyddiad trist diweddar ynglŷn ag ymhle roedd Mr Arthur Jones tra ar ei wyliau yn Creta. Roedd Dinbych wedi ymateb yn dda i'r wylnos a gynhaliwyd a'r apêl codi arian. Cytunwyd gyrru llythyrau i ddau drefnydd yr apêl.
(5) Un o ddefnyddwyr mwyaf Eirianfa yn gadael.
(6) Noson codi arian i apêl Arthur Jones a drefnwyd yn ddiweddar yn neuadd y dref wedi codi £2,500.
(7) Cyng Margaret Bowe a Mark Young wedi mynychu, yn ddiweddar, cwrs ardderchog hyfforddiant ar gadeiryddiaeth.
(8) Nid oedd difrod i gylchfan Pwll y Grawys yn cael ei adrodd gan y rhai a wnaeth y difrod – roedd hyn yn drosedd (A.170 RTA 1988)
(9) Goleuadau ffordd yn Lôn Llewelyn ddim yn gweithio.
(10) Arwyddion ar yr A55. Cytunwyd fod angen atgyfodi'r mater yma. Cytunwyd ymhellach i gysylltu â chynghorau tref Rhuddlan, Llanelwy a Rhuthun am gefnogaeth.

Am nad oedd mwy i'w drafod, terfynwyd y cyfarfod am 8.36 o'r gloch.

Arwyddwyd:.....(cadeirydd)

Dyddiad:.....